# Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu *Policy in Practice*, i ymgymryd ag ymchwil i asesu effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru. Yn fwy penodol, nodau'r ymchwil yw:

- asesu effaith Credyd Cynhwysol ar faich achosion CTRS a lefelau dyfarnu yng Nghymru;
- datblygu darlun clir o'r rhai sydd ar eu hennill a'r rhai sydd ar eu colled - h.y. cartrefi a fydd mewn sefyllfa well neu waeth o dan y system Credyd Cynhwysol yng nghyd-destun dyfarniadau CTRS, i hysbysu'r Rheoliadau Uwchraddio CTRS;
- asesu effaith gostwng y tapr CTRS i ymgeiswyr sy'n cael prawf modd a diweddaru didyniadau annibynnol sy'n ffurfio rhan o'r cyfrifiad am ostyngiad yn y dreth gyngor;
- datblygu dealltwriaeth o batrymau dyled y dreth gyngor ac ôl-ddyledion ledled Cymru ac o fewn awdurdodau lleol Cymru a rhyngddynt; ac,
- asesu effaith ehangach Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion yng Nghymru a'r rhesymau wrth wraidd hyn. Archwilio'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r cymorth a gynigir gan yr Adran Waith a Phensiynau, a hynny a ddarperir gan landlordiaid a sefydliadau trydydd parti.

Fel rhan o'r ymchwil hwn, gwahoddir hawlwyr a rhanddeiliaid Credyd Cynhwysol i gymryd rhan mewn cyfweliad sy'n archwilio eu profiad o Gredyd Cynhwysol. Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Ar sail canfyddiadau'r ymchwil, cyhoeddir adroddiad ymchwil dros dro a therfynol ar wefan Llywodraeth Cymru, a fydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw unigolion yn cael eu hadnabod wrth adrodd ar y canfyddiadau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd *Policy in Practice* yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir yn ystod gwaith maes

yr ymchwil , a sicrhau bod unrhyw ddata amrwd yn ddienw, cyn eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru.

Yr unigolyn cyswllt ar gyfer y gwerthusiad hwn yn *Policy in Practice* yw Ben Fell.
Ffôn: 03300 889242
E-bost: ben@policyinpractice.co.uk

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD - Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru

### Pa fanylion personol sydd gennym ac o ble'r ydym yn cael y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel "unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddyfais adnabod".

Rydych wedi eich gwahodd i gymryd rhan yn y cyfweliad gan *Policy in Practice* oherwydd eich bod wedi cytuno inni gysylltu â chi at y diben hwn mewn holiadur ar-lein (mewn rhan flaenorol o'r prosiect ymchwil hwn). Bydd gan yr ymchwilwyr fynediad at y wybodaeth rydych wedi ei chyflwyno ar y ffurflen gyswllt yn unig, ac ni fydd ganddynt fynediad at eich ymatebion i'r prif holiadur o brofiadau gyda Chredyd Cynhwysol. Ni fydd modd cysylltu eich ymatebion i'r prif holiadur gyda gwybodaeth rydych wedi ei chyflwyno yn ystod y cyfweliad, os ydych yn dewis cymryd rhan.

Ni fydd gofyn ichi gyflwyno unrhyw ddata personol fel rhan o'r cyfweliad. Os dewiswch ddarparu unrhyw ddata personol ychwanegol fel rhan o'r ymchwil, byddwn yn ceisio peidio â'ch adnabod o'r ymatebion a roddwch, na chysylltu'ch hunaniaeth â'r ymatebion.

Bydd angen inni recordio cyfweliadau am resymau gweithredol. Byddwn yn egluro hyn ichi cyn dechrau'r cyfweliad, a byddwch yn cael y cyfle i dynnu'n ôl os nad ydych yn hapus gyda'r ffaith y bydd y cyfweliad yn cael ei recordio. Bydd data personol yn cael ei ddileu yn ystod y broses o drawsgrifio'r cyfweliadau. Bydd recordiadau yn cael eu dileu cyn gynted ag y cwblheir y broses. Os nad yw cyfweliadau yn cael eu recordio, ni fydd data personol yn cael ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratowyd yn dilyn cyfweliadau.

Os ydych yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol wrth ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon yr ymholiad ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yn ei ddileu o'r data ymchwil ar ôl hynny.

### Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Gwnawn yr ymarfer casglu data hwn o dan y sail gyfreithiol bod angen i ni brosesu'r wybodaeth er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil megis hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth gyfreithadwy ynglŷn â'i gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Er enghraifft, gellir defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i fod yn sail i bolisi CTRS y dyfodol, yn ogystal â helpu i lywio trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar weithredu Credyd Cynhwysol.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir i *Policy in Practice* yn cael ei storio'n ddiogel bob amser. Nifer fechan o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y gwaith ymchwil hwn yn unig fydd yn gallu defnyddio'r data. Bydd ymchwilwyr cymdeithasol *Policy in Practice* yn defnyddio manylion cyswllt cyfranogwyr i gysylltu â nhw at ddibenion ymchwil yn unig. Mae Policy in Practice yn meddu ar ardystiad hanfodion seiber sylfaenol.

Mae gan *Policy in Practice* weithdrefnau yn eu lle i ddelio ag unrhyw achosion a dybir sy'n torri diogelwch data. Os ceir achos o'r fath, bydd *Policy in Practice* yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn, a fydd yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol pan fo gofyn cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r ymchwil hwn yn cael ei gofnodi ar ffurf nad oes modd adnabod unigolion. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy a roddir mewn atebion cyfweliad yn cael eu dileu. Bydd *Policy in Practice* yn defnyddio'r data i gynhyrchu adroddiad prosiect ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pa mor hir ydym ni'n cadw eich data personol?

Bydd *Policy in Practice* yn cadw data personol yn ystod y cyfnod cytundeb, a bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei dileu dri mis wedi i'r cytundeb ddod i ben. Bydd *Policy in Practice* yn darparu trawsgrifiadau ysgrifenedig dienw o'r cyfweliadau i Lywodraeth Cymru. Ni fydd y trawsgrifiadau yn cynnwys gwybodaeth a ellir ei defnyddio i'ch adnabod chi. Yn benodol, bydd eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt eraill yn cael eu dileu o'r trawsgrifiadau.

## Hawliau unigol

O dan GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu i ni fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Mae gennych yr hawl i:

- Gael gweld copi o'ch data eich hun;
- Gofyn i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- (o dan amgylchiadau penodol) gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu;
- (o dan amgylchiadau penodol) mynnu bod eich data yn cael ei 'ddileu'; a
- Cofnodi cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: [www.ico.gov.uk](www.ico.gov.uk)

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru neu'n dymuno ymarfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Sara Ahmad neu John Broomfield (Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru)
Ffôn: 03000 250331 / 03000 250811

E-bost: sara.ahmad@gov.wales
john.broomfield@gov.wales

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.